

Archwilio darpariaeth amgen mewn dau awdurdod lleol yng Nghymru: Rhesymeg, canlyniadau ac adnoddau

Jemma Bridgeman, Prifysgol Caerdydd

CRYNODEB

Fel rhan o brosiect mwy'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) ar economïau gwleidyddol gwaharddiadau ysgol yn y DU, mae'r ymchwil hwn yn archwilio darpariaeth amgen. Mae darpariaeth amgen yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio addysg y tu allan i ystafell ddosbarth brif ffrwd. Gall disgyblion fynychu darpariaeth amgen yn llawn amser fel dewis arall yn lle addysg brif ffrwd neu ar sail atodol ochr yn ochr ag addysg brif ffrwd. Gellir ei threfnu gan awdurdod lleol (ALI) neu ysgol. Mae darpariaeth amgen yn darparu addysg i bobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol brif ffrwd; gall hyn fod oherwydd gwaharddiad ysgol, salwch corfforol, problemau ymddygiad, salwch meddwl neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Pan na all disgyblion fynychu'r ysgol, boed hynny am resymau iechyd neu oherwydd eu bod wedi'u gwahardd o'r ysgol, mae'n bwysig eu bod yn dal i gael addysg. Mae ymchwil yn esbonio bod y sector darpariaeth amgen yn gasgliad dryslyd o brosiectau. Mae'n cynnwys sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector sy'n darparu ymyriadau, gan gynnwys rhaglenni galwedigaethol, academiaidd, sgiliau bywyd a therapiwtig. Mae'r ymchwil hon yn tynnu ar ganfyddiadau cyfweliadau â deg darparwr amgen sydd â rhesymeg wahanol ar draws dau ALI yng Nghymru. Y tair thema a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad data a wnaed oedd rhesymeg, canlyniadau ac adnoddau. Roedd gwahaniaethau mewn rhesymeg gyda darparwyr addysgol a galwedigaethol yn canolbwyntio ar gymwysterau a phontio i gyfflogaeth, addysg, a hyfforddiant, a darparwyr therapiwtig, chwaraeon a'r celfyddydau yn

canolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth, perthnasoedd a sgiliau bywyd. Wynebodd yr holl ddarparwyr heriau wrth fesur canlyniadau eu hymyriadau. Nid oedd gan ddarparwyr a oedd yn gweithio mewn ysgolion fanylion cyswllt pobl ifanc i olrhain pontio ar ôl y rhaglen. Gallai eraill olrhain pontio i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth yn y tymor byr ond ni allent gofnodi'r deilliannau hydredol.

Prif ganfyddiad yr ymchwil hwn yw nad yw darparwyr darpariaeth amgen yn derbyn digon o gyllid i dalu'u costau, a gallai diffyg tystiolaeth o effeithiolrwydd ac eglurder ynghylch rhesymeg waethygu hyn. Mae'r ffordd y mae rhaglenni darpariaeth amgen yn cael eu hadnoddau'n codi cwestiynau am gynaliadwyedd y ddarpariaeth - roedd darparwyr trydydd sector yn ei chael hi'n anodd talu costau craidd rhaglenni, roedd cwmnïau preifat yn tueddu i gael cymhorthdal gan rannau mwy proffidiol o'u sefydliadau, ac roedd hyd yn oed darparwyr cyhoeddus angen cyllid ychwanegol ar gyfer eu gweithgareddau.

Geiriau allweddol: darpariaeth amgen, cyllid, mesur llwyddiant, teipoleg, gwahardd

Cyflwyniad

Mae'r term darpariaeth amgen yn disgrifio'r ystod eang o ymyriadau a ddarperir i bobl ifanc ag ystod o anghenion gan gynnwys plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anabledd; pobl ifanc ag anhawster iechyd meddwl; y rhai sydd wedi cael bylchau yn eu haddysg; y rhai sy'n gwrthod mynd i'r ysgol neu sydd â ffobia o'r ysgol; y rhai nad ydynt wedi gallu ymdopi â gofynion addysg brif ffrwd a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd neu sy'n wynebu risg o gael eu gwahardd o'r ysgol (Trotman et al., 2019). Mae darpariaeth amgen yn ddarpariaeth amgen a chynlluniedig lle mae plant sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg yn cael eu tynnu o'r ystafell ddosbarth brif ffrwd; gall hyn fod am brynawn, wythnos neu'n amser llawn. Mae'r astudiaeth hon yn archwilio amrywiaeth y ddarpariaeth amgen ar draws dau awdurdod lleol (ALI) yng Nghymru, gan archwilio darpariaeth amgen sy'n disodli addysg brif ffrwd i blant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol a rhaglenni atodol rhan-amser a ddarperir i blant sy'n wynebu risg o gael eu gwahardd. Mae'r astudiaeth hon yn rhan o brosiect Excluded Lives y Cyngor Ymchwil

Economaidd a Chymdeithasol, sy'n archwilio gwahardd disgyblion o ysgolion ar draws pedair awdurdodaeth y DU sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'n canolbwyntio ar ddata ansoddol o ddeg cyfweiliad ar-lein lled-strwythuredig gyda darparwyr darpariaeth amgen. Amcan yr ymchwili oedd archwilio'r gwahanol ymyriadau a ddarperir gan sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth amgen arbenigol i fyfyrwyr sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol neu sy'n wynebu risg o gael eu gwahardd o'r ysgol. Lluniwyd amserlen gyfswydd lled-strwythuredig i ddeall yr ymyriadau a gyflwynwyd ganddynt, yr allbynnau a'r deilliannau i bobl ifanc, sicrhau ansawdd a sut y gwnaethant roeddent yn mesur llwyddiant. Mae ymchwili yn egluro bod llywodraethau a sefydliadau cymunedol wedi datblygu ymyriadau darpariaeth amgen amrywiol i alluogi pobl ifanc i aros mewn addysg neu ddychwelyd iddi (te Riele, 2007). Gall y casgliad dryslyd hwn o brosiectau sy'n cael ei waethgu gan ddiffyg fframwaith cyffredin wneud ymchwili i ddarpariaeth amgen yn heriol (te Riele, 2007: 54). Canfu McCluskey et al. (2015) er bod Cymru yn wlad fach â phoblogaeth fach, roedd lefel uchel o amrywiaeth lleol yn y ddarpariaeth amgen. Ar ben hynny, gallai hyn arwain at ddiffyg craffu, cwricwla wedi'u dylunio'n wael neu amhriodol, cefnogaeth fugeiliol annigonol a diffyg cyfle i ailintreiddio i addysg brif ffrwd (McCluskey et al. 2015).

Adolygu Llenyddiaeth

Mae darpariaeth amgen yn cyfeirio at y rhaglenni amrywiol a ddarperir i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg (Pennacchia a Thomson, 2016). Mae ymchwili gan Reimer a Pangrazio (2020) yn awgrymu bod tirwedd darpariaeth amgen yn gymhleth oherwydd gall myfyrwyr amrywiol ffynnu mewn lleoliadau amrywiol. Felly, mae angen i raglenni fod yn wahanol i'w gilydd. Y plant sy'n mynychu darpariaeth amgen yw'r disgyblion sydd wedi cael trafferth ymdopi mewn addysg brif ffrwd; maent yn fwy tebygol o fod ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) neu anabledd, bod yn y system lles plant, bod ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, bod â ffobia o'r ysgol ac wynebu risg o gael eu gwahardd neu fod wedi cael eu gwahardd yn barhaol o addysg brif ffrwd (Trotman et al., 2018; Jalali a Morgan, 2018; Hart, 2013). Mae Jalali a Morgan (2018) yn esbonio bod ymchwili yn amlygu profiadau negyddol disgyblion o

addysg brif ffrwd, gan gynnwys perthnasoedd gwael, teimladau o gael eu trin yn wael a heriau gyda dysgu; i'r gwrthwyneb, mae myfyrwyr yn tueddu i adrodd am brofiadau cadarnhaol mewn darpariaeth amgen (Jalali a Morgan, 2018). Cydnabyddir yn eang nad yw deilliannau myfyrwyr darpariaeth amgen cystal â rhai eu cymheiriaid mewn addysg brif ffrwd (Jalali a Morgan, 2018). Mae Jalali a Morgan (2018) yn awgrymu y gallai hyn fod oherwydd bod disgyblion eisoes yn methu'n academaidd pan fyddant yn dechrau darpariaeth amgen. I'r gwrthwyneb, mae Hart (2013) yn nodi y gall darpariaeth amgen roi ail gyfle i ddisgyblion a dechrau newydd lle gallent ymdopi'n well nag yn y brif ffrwd.

Ar ben hynny, mae'r llenyddiaeth yn codi pryderon am ansawdd darpariaeth amgen, gyda chanfyddiadau'n datgelu problemau rheoli ymddygiad, adnoddau annigonol, safonau addysgol gwael, a chymwysterau ymylol (Thomson a Pennacchia, 2014; Jalali a Morgan, 2018). Mae Jalali a Morgan (2018) yn awgrymu y gall y cyfuniad o ddisgyblion ag anghenion cymorth cymhleth a darpariaeth o ansawdd gwael arwain at ddisgyblion yn methu â chyflawni eu potensial llawn. Mae Thomson a Pennacchia (2014) yn esbonio mai ychydig o feini prawf systematig sydd ar gael i benderfynu a yw'r ddarpariaeth amgen sydd ar gael yn effeithiol neu'n werth chweil. Nododd Thomson a Pennacchia (2014) yr angen am ddeilliannau hydredol ar raddfa fawr ar gyfer myfyrwyr sydd wedi mynychu darpariaeth amgen ar draws pedair awdurdodaeth y DU. Canfuont, er bod gan ddarparwyr darpariaeth amgen wybodaeth dda am y bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda nhw, roedd angen mwy i feincnodi'r data, ac mae angen setiau data hydredol mawr i olrhain pobl ifanc sydd wedi mynychu darpariaeth amgen (Thomson a Pennacchia, 2014). Yn fwy diweddar mae Malcolm (2019) yn esbonio mai ychydig iawn o ymchwil sydd ar ddeilliannau tymor hwy'r rhai sydd wedi mynychu darpariaeth amgen a bod angen mwy o ymchwil i archwilio'r deilliannau tymor hwy hyn.

Mapio Rhaglenni Darpariaeth Amgen

Mae rhai enghreifftiau o ymchwil sy'n mapio darpariaeth amgen. Cwblhaodd Thomson a Russell (2007) ymarfer mapio darpariaeth amgen ar draws dau ALL yn Lloegr. Daethant o hyd i ddau fath cyffredinol: darpariaeth amser llawn i blant sy'n methu ymdopi ag addysg brif ffrwd a

Tabl 1: Teipoleg enghreifftiol o raglenni darpariaeth amgen

<i>Natur y rhaglen</i>	<i>Math o weithgaredd</i>	<i>Enghreifftiau</i>
Galwedigaethol	Rhaglen wedi'i hanelu'n benodol at alwedigaeth / proffesiwn / gyrfa benodol. Yn aml yn cynnig cymhwyster i helpu person ifanc i ymuno â'r 'byd gwaith'.	Adeiladu, cerbydau modur, gwallt a harddwch
Sgiliau Gwaith	Mae sgiliau gwaith generig, fel 'gallu dilyn cyfarwyddiadau' yn cael eu datblygu.	Profiad cyffredinol ar ffermydd
Sgiliau sylfaenol	Cynigir Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a TG (nid o reidrwydd ar lefel TGAU).	Safleoedd e-ddysgu
Sgiliau bywyd	Mae sgiliau cyffredinol sydd eu hangen i weithredu mewn cymdeithas, fel sgiliau cymdeithasol, coginio, a siarad heb regi, yn cael eu datblygu.	Ymarferion adeiladu tîm
Seiliedig ar weithgareddau	Mae gan y rhaglen ffocws ar weithgareddau/hamdden	Pysgota/beicio
Amgylcheddol	Mae'r ffocws ar addysgu pobl ifanc am natur a sut i ddefnyddio deunyddiau yn yr awyr agored a goroesi y tu allan.	Gweithio mewn coedwigoedd
Y Celfyddydau	Mae'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu'r celfyddydau.	Dawns, cyfryngau, cerddoriaeth, lluniadu a chrochenwaith
Therapiwtig	Yn canolbwyntio ar gynnig opsiwn adfer	Rheoli dicter, therapi teulu
Profiad gwaith	Mae lleoliadau gwaith amrywiol yn rhan o becyn addysgol person ifanc. Mae rhai yn cael eu cynnig fel rhan o raglenni go iawn.	
Academaidd	Ffocws addysgol cryf, gan bwysleisio cymwysterau addysgol hysbys fel TGAU.	Gwersi un i un

(Thomson a Russell 2007)

darpariaeth cyflenwol ran-amser i gefnogi plant i aros mewn addysg brif ffrwd (Thomson a Russell, 2007). Daeth Thomson a Russell (2007) o hyd i dirwedd gymhleth o ddarpariaeth, ac fe wnaethant ei rhannu'n wahanol categorïau i ddatblygu teipoleg i wneud synnwyr o'r hyn a oedd ar gael i ddisgyblion. Y categorïau oedd galwedigaethol, sgiliau gwaith, sgiliau sylfaenol, sgiliau bywyd, seiliedig ar weithgareddau, amgylcheddol, y celfyddydau, therapiwtig, profiad gwaith ac academiaidd (gweler Tabl 1 am fwy o fanylion) (Thomson a Russell, 2007). Mae Thomson a Pennacchia (2014) wedi datblygu teipoleg genedlaethol gynhwysfawr fwy cyfredol yn seiliedig ar raglenni darpariaeth amgen ledled y DU, gan gategoreiddio darparwyr yn dri modd gwahanol: modd A yw ysgol draddodiadol neu ysgol amgen, modd B yw darpariaeth amgen neu raglen amser llawn, a modd C yw cynnig rhan-amser, mwy cyfyngedig neu weithgareddau 'cyflenwol'. Mae ymchwil gan Power et al. (2022) yn awgrymu er bod teipolegau presennol yn helpu i drefnu ymyriadau gwahanol, maent angen mwy o bŵer esboniadol. Un enghraifft yw teipoleg Thomson a Russell (2007) a restrir yn Nhabl 1 (am enghreifftiau eraill, gweler Aron a Zweig, 2003; Valdebenito et al., 2018). Ar yr un pryd, gallai disgrifiadau a dosbarthiadau fod yn fan cychwyn defnyddiol, yn enwedig gan fod y llenyddiaeth yn cydnabod tirwedd gymhleth y ddarpariaeth (Thomson a Russell 2007, 2009; Thomson a Pennacchia 2014). Mae Power et al. (2022) yn awgrymu mai'r hyn sydd ei angen yw teipoleg o'r hyn sy'n gwneud y gwahaniaeth sy'n egluro ble mae'r ffordd i ail-ymgysylltu.

Ar ben hynny, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu mai prin yw'r dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd darpariaeth amgen, a bod angen cynyddu'r ddealltwriaeth o sut mae'n gweithio'n ymarferol a pha fodelau sy'n diwallu anghenion cymorth 'cymhleth' pobl ifanc orau (Reimer a Pangrazio 2020, t. 479, Thomson a Pennacchia, 2014). Mae Thomson a Pennacchia (2014) yn awgrymu nad oes digon o ddata ar yr hyn sy'n digwydd i bobl ifanc ar ôl iddynt adael darpariaeth amgen, ac maent yn dadlau bod hwn yn fater o ansawdd a thegwch. Mae Sandford et al. (2006) yn awgrymu mai ychydig o raglenni sydd wedi dangos effaith gynaliadwy ar ymddygiad disgyblion yn seiliedig ar eu gweithgareddau. Er bod Thomson a Pennacchia (2014) wedi datblygu teipoleg o ddarpariaeth amgen yn y DU, dim ond un sefydliad yn eu hastudiaeth oedd o Gymru, ac mae dadl gref dros fapio tirwedd darpariaeth amgen i sicrhau y byddai unrhyw deipoleg a ddatblygir yn gweithio mewn cyd-destun Cymreig.

*Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Darpariaeth Amgen: Y Cyd-destun
Polisi yng Nghymru*

Mae dau fath trosfwaol o ddarpariaeth addysg amgen yng Nghymru: Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) a darpariaeth amgen. Diffinnir AHY yng nghyfraith Cymru yn Neddf Addysg 1996. AHY yw lle mae ALLau yn gwneud trefniadau ar gyfer pobl ifanc sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol. Yn ogystal ag AHY, mae rhai ysgolion yn comisiynu darpariaeth amgen, ond nid oedd hyn yn fwriad polisi gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019). Gan fod ysgolion yn comisiynu rhywfaint o ddarpariaeth amgen, mae'n annhebygol y bydd gan awdurdodau lleol restr gynhwysfawr o ddarparwyr darpariaeth amgen yn gweithredu yn eu hardal. Mae'n heriol cyfleu tirwedd y ddarpariaeth gan nad oes rhestr ganolog o ddarpariaethau amgen yng Nghymru. Lle mae data, fe'i casglwyd ar sail prosiect ac nid yw wedi'i ddiweddarau'n rheolaidd (Thomson a Russell, 2009). Ar ben hynny, mae'r ymchwil hon yn mabwysiadu diffiniad eang o ddarpariaeth amgen, gan ymgorffori AHY a darpariaeth amgen, nas diffinnir yng nghyfraith Cymru ac a gomisiynir gan ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae Estyn (2023) yn adrodd nad yw'r rhan fwyaf o ALLau yn monitro neu'n goruchwyllo darpariaeth AHY yn ddigon cadarn, gyda llawer yn casglu data ar gymwysterau a enillir yn unig a dim ond lleiafrif sy'n monitro ac yn gwerthuso cynnydd disgyblion mewn AHY.

Er mai prin yw'r ymchwil ar ddarpariaeth amgen, yn enwedig yng Nghymru, fe wnaeth Smith a Connolly (2019) archwilio rôl broffesiynol athrawon o fewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau). Mae darpariaeth AHY yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, UCDau (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae UCDau yn ysgolion sy'n cael eu rhedeg gan ALLau ar gyfer disgyblion na allant ymdopi â gofynion addysg ac maent yn un math o AHY (Llywodraeth Cymru, 2018). Er bod papur Smith a Connolly (2019) yn ddefnyddiol, dim ond un math o ddarpariaeth amgen y mae'n edrych arno. Ar ben hynny, er y bydd rhai ymyriadau darpariaeth amgen yn cyflogi staff addysgu cymwysedig, bydd eraill yn cyflogi gweithwyr ieuencid, gweithwyr ymgysylltu therapiwtig, swyddogion ymddygiad a lles, gweithwyr ieuencid, hyfforddwyr chwaraeon a thiworiaid galwedigaethol (Putwain et al., 2016). Canfu Estyn (2023) fod UCDau yn gwneud cynnydd tuag at gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a bod y mwyafrif yn darparu cwricwlwm effeithiol wrth gefnogi lles emosiynol disgyblion. Mae Llywodraeth Cymru (2023)

yn disgrifio rôl consortia addysg rhanbarthol Cymru wrth gefnogi gweithrediad y Cwricwlwm i Gymru mewn AHY. Er bod y cydweithio systematig hwn rhwng ALLau i'w groesawu, gyda thystiolaeth ac arbenigedd yn cael eu rhannu rhwng rhanddeiliaid allweddol i gynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm mewn AHY, mae'n ymddangos nad yw darpariaeth amgen yn rhan o gylch gwaith y consortia rhanbarthol (Llywodraeth Cymru, 2019).

Methodoleg

Fel rhan o brosiect mwy gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ar economïau gwleidyddol gwaharddiadau o'r ysgol yn y DU, mae'r ymchwil hon yn archwilio darpariaeth amgen. Mae'r prosiect yn archwilio'r amgylchiadau, y cefndir a'r prosesau sefydliadol sy'n arwain at wahanol fathau o waharddiadau ffurfiol ac anffurfiol o'r ysgol a'r deilliannau i bobl ifanc sydd wedi'u gwahardd, eu teuluoedd, ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill ledled y DU. Bu McCluskey et al. (2013), mewn gwerthusiad o'r broses wahardd o'r ysgol yng Nghymru i gael darlun cyflawn o waharddiadau o'r ysgol, hefyd yn archwilio'r addysg a ddarparwyd i ddisgyblion a oedd yn cael eu haddysgu y tu allan i leoliad ysgol. Yn debyg i ganfyddiadau ymchwil flaenorol ar ddarpariaeth amgen, ni wyddys faint o raglenni darpariaeth amgen a oedd yn gweithredu ar draws ALLau, nid oedd data cenedlaethol, ac roedd y wybodaeth a oedd gan ALLau yn anghyflawn (Thomson a Russell, 2007; 479, Thomson a Pennacchia, 2014). Mae'n bosibl mai'r rheswm am y diffyg cronfa ddata genedlaethol o ddarparwyd darpariaeth amgen yw bod Llywodraeth Cymru (2019) yn cydnabod, er bod adroddiadau olynol wedi awgrymu y dylai ysgwyddo rôl gryfach a sefydlu polisiâu a gweithdrefnau cenedlaethol, mae'n ystyried mai cyfrifoldeb ALLau yw sefydliadau AHY ac UC Dau. Yn ogystal, gan fod ysgolion yn comisiynu rhywfaint o ddarpariaeth amgen, mae'n annhebygol y bydd gan ALLau restr gynhwysfawr o ddarparwyr darpariaeth amgen sy'n gweithredu yn eu hardal. Er bod tystiolaeth o gydweithio wrth fabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru gyda chymorth consortia rhanbarthol mewn lleoliadau AHY, nid yw lleoliadau darpariaeth amgen nad ydynt wedi'u dosbarthu fel AHY wedi'u cynnwys yn y gwaith hwn (Llywodraeth Cymru, 2019).

Cafodd dau awdurdod lleol eu dewis i fod yn astudiaeth achos yng Nghymru fel rhan o brosiect ar wahardd disgyblion o'r ysgol. Un o

amcanion yr ymchwil oedd datblygu rhestr o ddarpariaeth amgen ym mhob un o'r ddau ALI yn yr astudiaeth achos. Cafodd y rhestrau hyn eu casglu yn seiliedig ar chwiliadau bwrdd gwaith a chyfweliadau â swyddogion ALLau. Ym mhob astudiaeth achos roedd dwy ysgol graidd, un gyda gwaharddiadau uwch na'r disgwyl ac un gyda gwaharddiadau is na'r disgwyl. Fel rhan o'r cyfweliadau ysgol, gofynnwyd i staff a disgyblion enwi'r darparwyr amgen a oedd yn gweithio gyda'r ysgol. Cafodd rhestr o ddarparwyr amgen ei llunio ar gyfer pob ALI (gweler Power et al., 2024 am fwy o fanylion am restrau darpariaeth amgen ledled y DU). O'r rhestr hon, dewiswyd sampl bwriadus o ddeg darparwr (gweler Tabl 2) o ddeddiad amrywiol o ddarparwyr amser llawn a rhan-amser gyda chymysgedd o opsiynau addysgol, galwedigaethol, chwaraeon, seiliedig ar y celfyddydau a therapiwtig. Defnyddiwyd teipoleg Thomson a Russell (2007) i gategoreiddio darparwyr yn hytrach na theipoleg ddiweddarach Thomson a Pennacchia (2014) oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn fwy defnyddiol yn y lle cyntaf er mwyn dechrau archwilio a chategoreiddio darpariaeth amgen. Y meini prawf cynhwysiant oedd unrhyw raglen neu ymyrraeth a oedd yn tynnu disgyblion o'r ystafell ddosbarth ac nad oedd yr ysgol yn ei rhedeg. Ni chynhwyswyd darpariaeth amgen yn yr ysgol a oedd yn cael ei rhedeg yn fewnol yn yr ymchwil hwn.

Y cwestiynau ymchwil oedd:

- 'Beth yw'r rhesymeg a roddir dros wahanol fathau o ddarpariaeth?'
- 'Pa ymyriadau, yn y gorffennol a'r presennol, oedd/sydd yn cael eu hystyried yn llwyddiannus a pham?'

Cynhaliwyd yr ymchwil gan ymchwilydd addysg gyda chefnidir ym maes darpariaeth amgen. Mae Greene (2014) yn nodi ei bod yn hanfodol ystyried tuedd pan fydd gan yr ymchwilydd wybodaeth bersonol flaenorol am y gymuned. Er mwyn lleihau tuedd bosibl, defnyddiwyd ôl-drafodaeth gydag un o gymheiriaid yr ymchwilydd; rhannodd yr ymchwilydd holl elfennau'r ymchwil a'r canfyddiadau gyda chydweithiwr a ddarllenodd y trawsgrifiadau a rhoi cyngor ar godio (Greene, 2014). Rhoddodd y pwyllgor moeseg ym Mhrifysgol Rhydychen gymeradwyaeth foeseg ar gyfer yr ymchwil hon, gyda'r cyfeirnod ED-C1A-20-057.

Dewiswyd cyfweliadau lled-strwythuredig fel y dull casglu data. Cynhaliwyd cyfweliadau rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Gorffennaf

2022. Roedd cyfweiliadau lled-strwythuredig yn ddefnyddiol wrth gasglu data oherwydd natur ansicr darpariaeth amgen, natur ddeongliadol yr ymchwil a diffyg ymchwil flaenorol ar ddarpariaeth amgen yng Nghymru. Roedd y dull a ddefnyddiwyd yn parchu profiadau unigol cyfranogwyr o ddarpariaeth amgen ac yn eu galluogi i fynegi eu barn ar eu telerau eu hunain. Cafwyd cydsyniad ar sail gwybodaeth cyn cyfweiliadau, a rhoddwyd trosolwg i'r cyfranogwyr o'r prosiect cyfan a phwrpas y cyfweiliadau. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sut roeddent yn gweithio gyda disgyblion, beth oedd eu hymyriad yn ei gynnwys, beth oeddent yn ei wneud a oedd yn wahanol i ysgolion neu UCDAu, beth oedd y deilliannau i ddisgyblion a sut roeddent yn cael eu hariannu.

Casglwyd a dadansodwyd y data yn iteraidd, ac archwiliwyd themâu ymhellach gan ddefnyddio dadansoddiad thematig. Cofnodwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig ar ddictaffon ac fe'u trawsgrifiwyd gair am air. Roedd sawl cam i'r gwaith dadansoddi data. Yn gyntaf, er mwyn trochi yn y data, darllenwyd y data dro ar ôl tro er mwyn ymgyfarwyddo ag e'n llwyr; nesaf, dadansodwyd y data yn thematig i gynhyrchu rhestr gychwynnol o godau/themâu a gweld a oedd unrhyw batrymau yn ymwneud â chwestiynau'r ymchwil. Yna, cafodd ei archwilio i weld sut roedd codau'n cyfuno i ffurfio themâu trosfwaol. Dadansodwyd y cyfweiliadau lled-strwythuredig i nodi themâu allweddol ar gyfer cyfranogwyr gan ddefnyddio dadansoddiad thematig yn dilyn Clark a Braun (2017) a Patton (2014) a chawsant eu llywio gan yr adolygiad llenyddiaeth i gyfleu amrywiaeth y ddarpariaeth, sut roeddent yn diwallu anghenion cymorth cymhleth pobl ifanc a sut roeddent yn mesur llwyddiant (Thomson a Russell, 2007, 2009; 479, Thomson a Pennacchia, 2014; Reimer a Pangrazio, 2020).

Cyfyngiadau

Mae'n bwysig cydnabod bod cyfyngiadau i'r ymchwil hon. Yn gyntaf, fe'i cynhaliwyd mewn dim ond dau ALL, sy'n effeithio ar y gallu i'w chymhwyso'n ehangach. Er bod gwaith Thomson a Russell (2009) i fapio darpariaeth amgen yn Lloegr hefyd wedi ei wneud mewn dau ALL, yng ngham un, fe wnaethant fapio'r ddarpariaeth, ac yng ngham dau, aethant ati i gwblhau chwe astudiaeth achos ethnograffig. Digwyddodd yr ymchwil hwn yn ystod y pandemig COVID-19, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o gyfweiliadau wedi'u cynnal ar-lein. Er bod addysg ar gael i fyfyrwyr pan

gynhaliwyd y gwaith maes, nid oedd yn briodol i ymchwilydd allanol fod ar y safle; golygodd hyn nad oedd modd arsylwi ar gynllun gofod, ymddygiad myfyrwyr, y berthynas rhwng myfyrwyr a staff, ac ymddygiad staff fel yr oedd Thomson a Russell (2009) wedi ei wneud. Cyfyngiad arall ar yr astudiaeth hon yw, oherwydd y baich a oedd wedi'i roi ar ddarparwyr darpariaeth amgen yn ystod y pandemig COVID-19, nad oedd modd gwirio trawsgrifiadau gyda chyfranogwyr. Yn hytrach, cynhaliwyd gwiriadau gan aelodau yn y cyfweiliadau drwy grynhoi'r hyn a ddywedwyd a chadarnhau dehongliadau (Jalali a Morgan, 2018).

Rhesymeg Darparwyr Darpariaeth Amgen: Darparwyr rhan-amser

Mae canfyddiadau'r astudiaeth yma'n dangos bod dau fath o ddarpariaeth amgen yn fras. Yn gyntaf, darperir darpariaeth atodol ran-amser i bobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol neu uned cyfeirio disgyblion (UCD) i atal gwaharddiad. Yn ail, darpariaeth amser llawn ar gyfer pobl ifanc a oedd wedi cael eu gwahardd fel darpariaeth yn lle ysgol. Roedd rhesymeg darparwyr atodol rhan-amser yn amrywio, er bod tebygrwydd ymhlith y rhaglenni a oedd yn defnyddio chwaraeon i ymgysylltu â phobl ifanc. Roedd cyfranogwr 10, a oedd yn gweithio i'r darparwr rygbi therapiwtig a chyfranogwr 1, a oedd yn gweithio i'r darparwr bocsi digyswllt, yn darparu rhaglenni therapiwtig a sgiliau bywyd. Roedd cyfranogwr 10 yn treulio diwrnod yr wythnos ym mhob ysgol, yn gweithio gyda thri grŵp o ddysgwyr. Roedd yn treulio dwy awr yr wythnos am hyd at dair blynedd gyda phob grŵp o bobl ifanc. Disgrifiodd cyfranogwr 10 hyn fel 'ymyrraeth hirdymor go iawn.' Yn y ddwy awr yr oedd gyda'r bobl ifanc, roedd yn cynnal sesiwn ymarfer corff yn gyntaf i ystwytho ymennydd y bobl ifanc; nesaf, roedd yn cyflwyno gweithdy datblygu personol yn ymdrin â phynciau fel cydsyniad, perthnasoedd iach, cyffuriau, meithrin perthynas amhriodol, trefn iach, defnydd iach o ffonau symudol, y cyfryngau cymdeithasol. Esboniodd cyfranogwr 10 ei fod yn ceisio darganfod pam mae pobl ifanc yn ymddwyn yn heriol a'u hatal rhag cael eu gwahardd:

Ein gwaith ni yw deall (a) meithrin ymddiriedaeth gyda'r bobl ifanc, fel eu bod yn teimlo y gallant ddweud wrthym pam eu bod yn tynnu'n ôl, pam eu bod yn ymddwyn yn heriol, pam nad ydynt yn ymgysylltu â'r ysgol, pam nad ydynt yn cyrraedd eu potensial. Y math yna o bethau. Ac os ydyn nhw'n ymddiried ynom ni ddigon i ddatgelu, sef yr hyn sy'n digwydd ar ôl ychydig, yna byddwn ni'n gweithio'n agos iawn gyda nhw i helpu'r ysgol i ddeall beth sy'n digwydd hefyd oherwydd mae hynny'n buysig.

Tabl 2: Y Sampl

Cyfrangwr	Darpariaeth	Sector	Rhaglen/rhaglenni ymyrraeth a ddarparwyd	Lleoliad	Hylf	Cymbaleb staff: adfygwyr	AHY/ Darpariaeth Angen	Cyflidir	Math
1	Boeso digyswllt	Y trydydd sector (Elusen)	Gweithgareddau bosso digyswllt. Difynwyd gan: Rhaglen dablygiad personol (wedi'i dablygu gan seicolegwyr) yn cynnwys: Dyngu o gamgymaetriadau, ymateb yn gadarnhaol, etc. Maent hefyd yn cynnig cyngor gyrfaoedd, rhaglenni entrepreneuriaeth a gallu ariannol.	Ar safle'r ysgol	Cyfnod penodol, fel arfer 10 wythnos neu dymor. Mae'r sestwn ymarfer yn para awr.	Un aelod o staff i chwech i ddeg o ddysgwyr	Darpariaeth angen	Ymddiriedolaethau a sefydliadau	Sgiliau bywyd
2	Ryngbi cymunedol	Prefatr	Ryngbi cyffwrdd, cyfathrebu a gwaith tîm.	Ar safle'r ysgol	Dwy awr bob pythefnos neu weithgareddau yngysylltu.	Yn wahanol i bob ysgol ond bydd gan bob ysgol aelod craidd o staff i feithrin perthnasoedd.	Darpariaeth angen	Ariennir gan y rim ryngbi masnachol	Sgiliau bywyd
3	Hyfforddwr adeiladu	Prefatr	Hyfforddiant gwaith paratoi'r pridd ar safle sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer y gymuned leol	Ar safle cymunedol.	Cymysgedd – gall fod yn amser llawn neu un i ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae'n parhau trwy ysgol y fwydydd ysgol.	Tri aelod o staff ar gyfer hyd at 10 o ddysgwyr	Darpariaeth angen	Ariennir gan yr UCID	Galwedigaethol

Cyfeirngwr	Darpariaeth	Sector	Rhaglenni/haglenni ymyrraeth a ddarparwyd	Lleoliad	Hyd	Cymlaerob-staff i ddygwyr	AHY/ Darpariaeth Angen	Cyflidwr	Math
4	Sefydliad Amgysgheddol	Preifaf	Cystian achrededig Agored Cymru newa plymio, coginio, gwaith saer, celf a flogograffiaeth gyda llythrennedd a rhifedd weddi'u hyngorffori yn y cystiau.	Oddi ar safle'r ysgol yn ysafelloedd dosbarth yn i ddau pwrpasol y sefydliad	Cymysgedd - gall fod yn answr llawn neu un i ddau ddiwrnod yr wythnos, ac mae rhai dygwyr yn mynychu ar gontract chwe wythnos.	Uchafswm o un aedol o staff i chwech o ddisgyblion.	Darpariaeth angen	Mae'r ALL a'r ysgolion yn prynu llocoedd.	Sgiliau galwedigaethol/ bywyd
5	Cynnal a chadw tai	Trydydd sector (ind-er-elw)	Gweithdai adeiladu ymarferol, gen gymwys plymio, trydanol, gosoed pibelli, paentio, ac addurno. Cyflwynr o becn cymorth y diwydiant.	Ar safle'r ysgol	Gweithdai yn para 60 - 90 munud	O leaff tri aedol o staff i bump i ddeg disgybl.	Darpariaeth angen	Rhan o ymrwymiad gwerth cymdeithasol y cwmni	Sgiliau gwaith / sgiliau bywyd
6	Prosiect cynhwysiant gwaith ieuenctid	Cyhoeddus	Cyfeiriedd profiad gwaith galwedigaethol amgen dan arweiniad gwaith ieuenctid i'r rhai sydd ar y cyron ac sydd weddi ymdeithio o addysg brif ffrwd.	Safle oddi ar yr ysgol yn adeilad yr ALL	Un diwrnod yr yr wythnos i'r disgyblion i wneud dyggu galwedigaethol.	Pedwar aedol o staff ar gyfer 12 o bobl ifanc	AHY	Cyllid eraidd gan Lywodraeth Cymru a'r ALL	Celfyddydau/ therapiwtig
7	Darparwr hyfforddiant mlwrol	Y trydydd sector (Eilusen)	Rhaglenni cyfnod allweddol 3 a 4 gyda phob ifanc 14-16 oed yn cyflwyno byrd ar bedwar TGAU. Mae ganddyni lwybr mlwrol, chwarateon a chyfres ESQ o hyfforddiant sgiliau hanfodol.	Safle oddi ar yr ysgol	O dri mis i dewy ffynedd newn rhai yn seiliedig ar anghenion pobl ifanc am gymorth	Un i ugain mewn rhai dosbarthdau. Un i chwech ar gyfer mathemateg a Saesneg lefel mynediad.	AHY	Llywodraeth Cymru	Galwedigaethol/ academaidd/ sgiliau bywyd

Archwilio darpariaeth angen mewn dau awdurdod lleol yng Nghymru

Cyfrangwr	Darpariaeth	Sector	Rhaglenni/huglenni ymyrraeth a ddarparir	Lleoliad	Hjd	Cymerbar staff i ddysgwr	AHY/ Darpariaeth Angen	Cyflubar	Math
8	Darparwr technoleg cerddoriaeth	Y trydydd sector (CIC)	Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith cwsr mewn technoleg cerddoriaeth yn ymarferol, gyda sgiliau gwethredol wedi'u hymgoffori wrth adrodd ar y gwaith ymarferol.	Siŵt-oddi ar yr ysgol	Un diwrnod yr wythnos fel rhan o raglen abwedigaethol yr ALL.	O laf dau aelod o staff i bob wrth ddysgwr.	AHY	ALI	Cellf / sgiliau bywyd
9	Darparwr hyfforddiant	Prefatr	Ar y cwsr amser llawn, mae Saesneg, mathemateg, ischyd a gofal cymdeithasol, celf, ABC, a hylendid bywyd yn fodwlu gofodol gydag opsiynau ar gyfer chwaraeon, y cyfryngau, gwella a harddwch, adeiladu, cerbydau modur a gofal anifeiliaid.	Ysgol annibynnol	Darpariaeth UCD amser llawn ac opsiynau galwedigaethol rhan-amser	Saith / wrth o ddysgwr i ddau aelod o staff	AHY	Ysgolion ac ALLau	Academaidd
10	Ryobi therapiwtig	Y trydydd sector (Elusen)	Mae pob grŵp o ddysgwr yn dod yn ddim rygbi mewn sesiwn ymarfer corff, yn gweithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio setiau sgiliau gwahanol i gyflawni nodau y cytunowyd arnynt. Wedi'i ddilyn gan weithdai a ddablygwyd gan ddim seicoleg yr elusen ar y problemau sydd gan y bobl ifanc, e.e., hyder am eu corff, cydgyfiad, perthnasoedd iach, cyffuriau, methrin perthynas amhriodol, trefn ddyddiol iach, a defnydd iach o ffonau symudol ar gyfryngau cymdeithasol.	Ar safle'r ysgol	Maent yn gweithio ym mhob ysgol un diwrnod yr wythnos, gan weld tri grŵp o ddysgwr.	Pedwar aelod o staff ar gyfer 10 ddysgwr fel arfer, ar urchafswm fyddai ugain o ddysgwr.	Darpariaeth Angen	Ysgolion ac ALLau.	Sgiliau bywyd/ therapiwtig

Disgrifiodd cyfranogwr 1 sut roedd pobl ifanc ‘yn llai gwyliaidwrus’ ar ôl bocasio digyswllt. Ar ben hynny, roeddent yn fwy agored i sgwrsio am eu lles a’u hiechyd.

Yn ogystal â bocasio digyswllt, roedd cyfranogwr 1 yn cyflwyno gweithdai rheoli dicter therapiwtig a ddatblygwyd gan seicolegwyr i ‘helpu myfyrwyr i feddwl am wahanol ffyrdd y gallan nhw ymateb i sefyllfaoedd cyffredin iawn, i helpu i’w cael yn ôl ar y trywydd iawn a’u helpu i ymateb yn fwy cadarnhaol i sefyllfaoedd’. Roedd cyfranogwr 2, y darparwr rygbi cymunedol, yn cefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd trwy ymarferion adeiladu tîm. Esboniodd eu bod ‘yn datblygu sgiliau rygbi, ond hefyd yn datblygu sgiliau bywyd, gan ganolbwyntio ar sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm, a’r ddisgyblaeth sy’n dod gyda chwaraeon’.

Roedd gweddill darparwyr darpariaeth amgen ran-amser yn darparu rhaglenni cynnal a chadw tai, cerddoriaeth a gwaith ieuencid. Roedd cyfranogwr 5 yn cyflwyno gweithdai cynnal a chadw tai ymarferol a ‘blêr’ mewn ysgolion uwchradd. Roedd y rhaglenni hyn yn rhoi sgiliau gwaith i bobl ifanc ac yn datblygu eu gallu i ddilyn cyfarwyddiadau. Esboniodd cyfranogwr 5 ei fod yn cyflwyno gweithdai ymarferol gan gynnwys ‘teilio, gosod papur wal, plymio, gwaith trydanol neu baentio’, a bod myfyrwyr yn ‘ddigon hapus i fwrw iddi â’r gwaith a mynd yn flêr gyda’r growt a’r paent’. Dywedodd ei fod yn rhoi ‘ychydig o hyder i fyfyrwyr eu bod yn gallu gwneud rhywbeth a gweld canlyniadau’r hyn maen nhw newydd ei wneud’.

Esboniodd cyfranogwr 6 fod y prosiect cynhwysiant gwaith ieuencid yn cynnig ‘cyfleoedd galwedigaethol, seiliedig ar brofiad, amgen i’r rhai sydd ar y cyrion ac sydd wedi ymddieithrio o addysg brif ffrwd’, a bod y prosiect yn ‘pontio gwaith ieuencid ac addysg’.

Oherwydd mai addysg yw e, ond rydyn ni’n dal i gyflwyno cynnig gwaith ieuencid sy’n canolbwyntio ar atebion, a grymuso. Beth hoffech chi wneud? Beth yw eich diddordebau? Beth am i ni wneud hyn? Na, dydw i ddim yn hoffi hynna. Iawn, felly byddwn yn rhoi cynnig ar hyn. Felly, mae’n broses ffyfriol a gwerthusol iawn hefyd. Fel bod yr hyn a gynigiwn yn diwallu anghenion (cymorth) y bobl ifanc ac ar yr un pryd, rydym yn deall bod gan bobl ifanc ymddygiadau a phroffiliau perfformiad anghyson.

Esboniodd cyfranogwr 8 ei fod dan gontract i ddarparu cymhwyster technoleg cerddoriaeth, ond y peth pwysicaf roedd yn ei wneud oedd defnyddio cerddoriaeth i ail-ennyn diddordeb myfyrwyr yn eu haddysg:

Dim ond cyfrwng ymgysylltu yw cerddoriaeth... y peth pwysicaf... yw'r myfyrwyr, eu llesiant, eu human-barch a'r hyn sy'n digwydd iddyn nhw. Ydyn nhw'n ddiogel? Mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc sy'n dod atom naill ai wedi cael eu cam-drin, maen nhw'n profi problemau digartrefedd, mae ganddyn nhw broblemau iechyd meddwl, neu maen nhw'n niurwahanol.

Rhesymeg darparwyr darpariaeth amgen amser llawn

Roedd darparwyr amser llawn yn tueddu i fod â ffocws mwy academiaidd, er bod yna gwricwlwm mwy cyfyngedig nag mewn ysgolion prif ffrwd. Roedd cyfranogwr 9 yn gweithio i ddarparwr hyfforddiant a oedd yn darparu rhaglen amser llawn i fyfyrwyr; roedd yn cyflwyno pynciau craidd Saesneg, mathemateg, iechyd a gofal cymdeithasol, celf, addysg bersonol a chymdeithasol, a hylendid bwyd. Yna roedd myfyrwyr yn gallu dewis o blith opsiynau galwedigaethol ychwanegol, gan gynnwys chwaraeon, y cyfryngau, gwallt a harddwch, adeiladu, cerbydau modur a gofal anifeiliaid. Eu rhesymeg oedd i fyfyrwyr adael gyda chymwysterau a symud ymlaen i rywbeth ystyrlon:

Ein nod yw... o gael dysgwyr yn ddigon cynnar, y bydd yn gadael gyda rhywle rhwng pump a naw TGAU neu gymwysterau cyfwerth, a'i fod yn symud ymlaen i rywbeth y mae ganddo ddiddordeb ynddo.

O'r ddau ddarparwr darpariaeth amgen amser llawn arall, esboniodd cyfranogwr 4 ei fod yn canolbwyntio ar sgiliau galwedigaethol a sgiliau bywyd yn ystod yr ymyrraeth amgylcheddol; roedd yn cyflwyno rhaglen benodol o fodiwlau achrededig a oedd yn darparu dysgu ymarferol, gan gynnwys 'plymio, coginio, gwaith saer, cynnal a chadw beiciau, celf a ffotograffiaeth ... y tu allan i ystafell ddosbarth ffurfiol'. Esboniodd cyfranogwr 4 fod 'pobl ifanc yn cymryd rhan os ydyn nhw'n cael anawsterau yn yr ysgol am ba bynnag reswm' ac (yma) 'nid criw o blant ysgol ydyn nhw, mae pob un yn unigolyn'.

Y ddarpariaeth amser llawn a oedd yn weddill oedd darparwr hyfforddiant adeiladu a oedd yn darparu hyfforddiant gwaith paratoi'r pridd galwedigaethol. Esboniodd cyfranogwr 3 mai pwrpas yr ymyriad hwn oedd darparu hyfforddiant galwedigaethol proffesiynol i bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at gyfleoedd yn y diwydiant adeiladu, diwydiant lle mae prinder sgiliau. 'Mae'r bobl ifanc yn dysgu

sut i yrru'r peiriannau'n gywir ... felly rwy'n dysgu'r cerbyd dympio (dumper truck), y pethau cywir ac anghywir sut i weithredu (cloddiwr) 360. Felly, pan maen nhw'n 16 oed, mae ganddyn nhw eu tystysgrifau a'u Cerdyn CSCS¹.

Canlyniadau: Heriau mesur llwyddiant

Gwybodaeth atgyfeirio anghyson

Nododd y cyfranogwyr heriau o ran mesur llwyddiant yr ymyriadau a gyflwynwyd ganddynt. Her gyntaf mesur llwyddiant ar gyfer darparwyr darpariaeth amgen ran-amser ac amser llawn oedd gwybodaeth atgyfeirio anghyson, gan ei gwneud hi'n anodd sefydlu llinell sylfaen i adrodd ar gynnydd disgyblion. Esboniodd cyfranogwr 10 ei fod yn 'gofyn am gymaint o wybodaeth â phosibl am y person ifanc' ar ddechrau rhaglenni, ond bod y wybodaeth a oedd yn dod i law yn 'gymysg' ac yn 'amrywio o ysgol i ysgol'. Esboniodd cyfranogwr 8:

Yn aml mae bylchau (mewn gwybodaeth atgyfeirio), ac yn aml mae pobl ifanc yn troi fyny a dyna ni. Nid oes gennym unrhyw gefndir o gwbl. Mae'r wybodaeth yn bodoli yn rhywle. Ond nid yw'n cael ei throsglwyddo'n dda iawn i ni. Rydyn ni'n cael rhai adroddiadau am bobl ifanc, ond wedyn dydyn ni ddim mewn llawer o achosion hefyd.

Esboniodd cyfranogwr 1 nad yw'n cael gwybodaeth atgyfeirio gan ysgolion mewn rhai achosion, a bod y myfyrwyr yn datgelu gwybodaeth fel anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Nid oedd yn glir a oedd hyn o ganlyniad i bolisiâu'r ysgol ar ddatgelu neu wybodaeth atgyfeirio annigonol

Weithiau, caiff gwybodaeth ei rhoi i ni gan yr ysgol, weithiau ddim, neu mae'r person ifanc yn ei datgelu. Rydw i wedi bod mewn rhai ysgolion lle mae person ifanc wedi datgelu i mi fod ganddo ryw lefel (o ADY neu angen am gymorth), ei fod wedi cael diagnosis o Anhwylder ar y Sbectwm Awstistig, ADHD, neu Ddyslecsia, neu, chi'n gwybod, pob math o bethau, felly nid yw'n hawdd dweud oni bai eu bod yn datgelu weithiau.

1 Mae cerdyn CSCS yn dangos bod gan bobl sy'n gweithio ar safle adeiladu yr hyfforddiant a'r cymwysterau priodol i wneud eu gwaith ar safle adeiladu (Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu, 2023).

Esboniodd cyfranogwr 7 y gallai fod yn aros pedair neu bum wythnos am wybodaeth atgyfeirio, a allai fod yn 'rhy hwyr' pe bai gan fyfyrwyr anghenion cymorth uchel. Roedd wedi datblygu systemau mewnlol ar gyfer casglu cymaint o wybodaeth â phosibl fel modd o liniaru'r diffyg gwybodaeth hanfodol. Defnyddiwyd y gweithgaredd ysgrifennu llythyr hwn hefyd fel math o asesiad ffurfiannol i bennu lefel llythrennedd disgyblion:

Rydyn ni'n cael cymaint o wybodaeth ag y gallwn ni trwy ein hasesiad cychwynol. Rydyn ni wedi gwneud rhywbeth o'r enw 'dweud wrtha i amdanat ti dy hun'; mae'n gyfveliadau meddal iawn, ac maen nhw'n ysgrifennu darn amdanyn nhw eu hunain. Maen nhw'n ysgrifennu llythyr atyn nhw'u hunain mewn dwy flynedd (rydyn ni'n gofyn iddyn nhw uneud hynny); meddyliwch amdanoch chi'ch hun mewn dwy flynedd; rydych chi'n ysgrifennu atoch chi'ch hun heddiw ac yn rhoi cymaint o glod â phosibl i chi'ch hun. Mae hynny'n ffordd feddal o ddysgu am y person ifanc; maen nhw'n gallu dechrau dychmygu a chadarnhau eu cyflawniadau. Dyna sut rydyn ni'n dod i adnabod y person ifanc a'i nwystrau.

Yr heriau i ddarparwyr rhan-amser wrth fesur canlyniadau

Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr darpariaeth amgen yn y sampl yn wynebu heriau o ran mesur llwyddiant eu hymyriadau, gyda darparwyr darpariaeth atodol ran-amser yn methu ag olrhain pontio dysgwyr i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a darparwyr amser llawn angen help i gofnodi deilliannau hydredol. Roedd darparwyr rhan-amser yn y sampl yn defnyddio offer a dulliau amrywiol i gofnodi'r pellter a deithiwyd gan bobl ifanc. Yn y rhan fwyaf o achosion, ond nid y cyfan, lle nad oedd darparwyr yn darparu achrediaid na chymwysterau, roedd angen iddynt fesur cynnydd yn wahanol. Mewn rhai achosion, roedd y cyllidwyr yn dweud wrth ddarparwyr beth ddylent ei fesur. Er enghraifft, roedd cyfranogwr 4 yn mesur nifer y myfyrwyr a oedd wedi ennill sgiliau ymarferol, gwella presenoldeb a magu hyder. Er bod cyfranogwyr eraill wedi datblygu mesurau mewnlol fel tystiolaeth o effeithiolrwydd i sicrhau cyllid yn y dyfodol, esboniodd cyfranogwr 10 ei fod yn defnyddio offeryn mesur mewnlol i fesur cynnydd mewn hyder, ymrwymiad a rheolaeth.

Roedd yn arbennig o heriol i ddarparwyr rhan-amser nad oeddent yn darparu achrediaid na chymwysterau i ddangos canlyniadau eu hymyriadau. Yn hytrach, roeddent yn nodi'r pellter a deithiwyd gan fyfyrwyr. Nid oedd cyfranogwr 10 yn cyflwyno unrhyw achrediaid na

chymwysterau, ‘yn fwriadol’, oherwydd nod y rhaglen oedd ‘cadw (disgyblion) yn yr ysgol ac (maen nhw’n) gwneud eu gwaith ysgol yno’. Defnyddiodd cyfranogwr 10 Raddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin i fesur ‘unrhyw gynnydd yn lles meddyliol pobl ifanc bob tymor’. Defnyddiodd darparwyr amrywiaeth o ddulliau i gofnodi allbynnau a deilliannau. Roedd cyfranogwr 6 yn gweithio ar y prosiect cynhwysiant gwaith ieuencid; roedd yn defnyddio gwahanol ddulliau i nodi allbynnau, deilliannau, a barn myfyrwyr. Er cydnabod yr ‘heriau wrth nodi deilliannau meddal’, roedd cyfranogwr 6 yn defnyddio Seren Ddeilliannau i fesur y pellter a deithiwyd mewn sgiliau meddal, yn enwedig ‘hyder, hunan-barch a lle mae (myfyrwyr) yn gweld eu hunain’, a oedd yn eu helpu nhw i ‘ddathlu cynnydd, waeth pa mor fach’. Yn ogystal â chynnig amrywiaeth o achrediau, esboniodd cyfranogwr 6 ei fod yn dda am nodi llais ieuencid, gan egluro ei fod yn cofnodi popeth ar system gwybodaeth reoli:

Hunanasesiad yw'r cyfan, pethau rydyn ni'n eu mesur gyda phobl ifanc, ond yn y bôn, rydyn ni'n ceisio rhoi iaith emosiynol iddyn nhw, fel y gallan nhw deimlo y gallan nhw fynegi eu hunain a gwneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd. Ac rydym hefyd yn ceisio rhoi offer ymarferol iddyn nhw y gallan nhw eu gweithredu fel y gallan nhw drosi'r emosiwn hunnw'n well mewn ffordd iachach.

Yn gyffredinol, roedd darparwyr darpariaeth atodol rhan-amser yn cael trafferth nodi deilliannau tymor hwy, gan gynnwys pontio i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Roedd tystiolaeth o bontio llwyddiannus disgyblion yn golygu bod darparwyr amgen yn gwybod bod eu hymyriadau wedi bod yn effeithiol yn y tymor byr a bod ganddynt dystiolaeth o effeithiolrwydd i wneud cais am gyllid yn y dyfodol. Roedd cyfranogwyr 1, 2, 5 a 10 yn gweithio gyda phlant yn eu hysgolion. Canfu'r darparwyr hyn fod ysgolion yn cadw manylion cyswllt disgyblion yn gyfrinachol, sy'n hollol ‘briodol’, ond bod hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt olrhain cynnydd a phontio i gyflogaeth, addysg, neu hyfforddiant yn achos y bobl ifanc. Roedd hyn yn golygu eu bod yn dibynnu ar ysgolion i ddarparu adborth ar ôl ymyrraeth ar gynnydd pobl ifanc a phontio i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant, a allai fod yn anghyson ac ad hoc. Esboniodd cyfranogwr 10:

Rydyn ni'n gwneud ein gorau tra'u bod nhw gyda ni a, gobeithio, gyda'r gefnogaeth hirdymor gywir y bydd newid ymddygiad parhaus yn para dros gyfnod parhaus, a'n bod

wedi rhoi'r offer gorau posibl iddyn nhw fynd allan a ffynnu. Weithiau mae'r bobl ifanc yn cysylltu â ni, neu byddwn yn eu gweld nhw yn y dref neu bydd eu hathrawon yn dweud wrthym.

Darparwyr amser llawn: Adrodd Canlyniadau

Roedd gan ddarparwyr amser llawn ddulliau mwy soffistigedig o olrhain allbynnau, deilliannau a phontio i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Er enghraifft, roedd cyfranogwr 7 yn gweithio i elusen genedlaethol, ac roedden nhw'n defnyddio system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) i gofnodi datblygiad myfyrwyr. Roedden nhw wedi cysylltu'r system CRM â chronfa ddata monitro:

Felly, unrhyw beth o rag-gofrestru ar y wefan, mae hynny i gyd yn mynd i mewn i'n cronfa ddata, mae popeth wedi'i dagio yn y fan honno felly os yw'r dysgur yn y system ofal ... os yw'r dysgur yn dod o UCD, bod ganddo ddatganiad o (anghenion dysgu ychwanegol), mae'n cael ei dagio. Yna mae'r system honno'n siarad â (system fonitro gyfrifiadurol). Yna, mae'r system honno'n dadansoddi cymwysterau a chyflawniadau (yn ôl demograffig), ac yna rydyn ni'n gwerthuso'r cyfan. Nododd yr (arolygiaeth ysgolion) fod hyn yn arfer orau wrth werthuso sut rydyn ni'n monitro a gwerthuso perfformiad dysgwyr.

Yr heriau i ddarparwyr amser llawn: cofnodi deilliannau hydredol.

Y peth anodd i ddarparwyr darpariaeth amgen amser llawn oedd cofnodi deilliannau hydredol pobl ifanc. Er enghraifft, roedd gan gyfranogwr 9 broses monitro a gwerthuso ar waith, roedd ganddo ddangosyddion perfformiad allweddol, roedd yn cofnodi nifer y TGAU neu gymwysterau cyfwerth a enillwyd, ac roeddent yn cofnodi cyrchfannau ôl-16 dysgwyr. Roedd y darparwr hyfforddiant yn hyderus y byddai dysgwyr yn cyflawni TGAU neu gymwysterau cyfwerth pe bai'n eu cael mewn pryd ac y byddai dysgwyr yn symud ymlaen i rywbeth a oedd o ddiddordeb iddynt. Fodd bynnag, roedd cyfranogwr 9 yn teimlo bod angen mwy o ymchwil hydredol i olrhain pobl ifanc a oedd wedi mynychu ei ddarpariaeth:

Y gwir amdani yw, dydw i ddim yn credu bod astudiaeth ... sy'n edrych ar ble mae'r bobl ifanc hyn nawr ac yn eu dilyn am 10/15 mlynedd ar ôl bod mewn darpariaeth amgen ac wedi cael eu gwahardd. Ydw i'n hyderus y galla i eu datblygu yn y tymor byr i fod yn

hyderus i fynd i mewn i gyfnod ôl-16? Ydw. Ydw i wedi newid eu bywydau yn y tymor hir? Dydw i ddim yn gwybod.

Canfyddiadau: Adnoddau

Canfyddiad arall o'r ymchwil hon yw nad yw darparwyr yn y trydydd sector a'r sector preifat yn derbyn digon o gyllid gan ysgolion neu awdurdodau lleol i dalu holl gostau'r ymyriadau. Dywedodd darparwyr darpariaeth amgen o'r sector preifat a'r trydydd sector nad oeddent wedi derbyn digon o arian gan ysgolion neu ALLau i dalu am weithgareddau craidd. Yn yr ymchwil hon, diffiniwyd costau craidd gan ddarparwyr darpariaeth amgen fel costau staffio, costau rhedeg adeiladau, deunyddiau ac, os oeddent yn berthnasol, achrediadau a chymwysterau. Diffiniwyd costau ychwanegol fel gweithgareddau a phrofiadau ychwanegol i bobl ifanc. Yn y trydydd sector, nododd cyfranogwyr 10 ac 8 gostau staffio uchel fel y prif reswm y bu'n rhaid iddynt sicrhau cyllid ychwanegol gan ymddiriedolaethau a sefydliadau. Esboniodd cyfranogwr 10 fod ei ymyrraeth rygbi therapiwtig yn ddrud i'w rhedeg. Mae gan bob grŵp o bobl ifanc bedwar aelod o staff, gan gynnwys 'arbenigwr ymddygiad sy'n seicolegydd neu rywbeth arall perthnasol, e.e., iechyd meddwl pobl ifanc' a hyfforddwr rygbi. Eglurodd fod ei ymyrraeth yn 'ddwys o ran costau a phobl' ond gyda'r 'lefel o gefnogaeth sydd ei hangen' a 'thrawma COVID-19', ni allent fynd i ysgol gyda llai na thim craidd:

Mae'r ysgolion neu'r ALLau yn talu. Dydyn nhw ddim yn talu 100% o'n costau. Yna daw'r gweddill o gyllid grant, cyllid cotfforaethol, ymddiriedolaethau a sefydliadau, digwyddiadau ac yn y blaen. Fel elusen, mae'n siŵr bod gennyf ni tua deg ffrwd incwm wahanol, sy'n gymhleth, ond yn wych, hefyd.

Roedd cyfranogwr 8 yn cyflwyno cyrsiau technoleg cerddoriaeth. Eglurodd ei fod yn cael ei dalu fesul myfyriwr, ac wrth iddo gael mwy o fyfyrwyr, roedd angen mwy o athrawon. Esboniodd ei fod wedi cyrraedd pwynt lle'r oedd yn rhaid iddo 'ddefnyddio cronfeydd eraill heb eu neilltuo i helpu i dalu costau'r ddarpariaeth amgen am nad oedd yn talu ffordd', a dywedodd ei fod yn arbennig o heriol cyflogi athrawon cymwysedig oherwydd bod angen 'ystyried y gymhareb myfyrwyr-athro' ac, yn realistig, bod angen 'talw isafswm o £20.00 yr awr oherwydd eu bod yn athrawon cymwysedig'. Eglurodd, yn ystod y

pandemig, ei fod wedi defnyddio'r amser i wneud ceisiadau am gyllid i gymorthdalau darparu'r rhaglen:

Felly, yr hyn wnes i dros y pandemig. Roedd gen i lawer o amser yn y tŷ, felly dyma fynd ati i ysgrifennu llwyth o geisiadau cyllido. Felly, rydyn ni wedi cyflwyno cais mawr (am gyllid), yr wyf wedi bod yn gweithio arno ers dros dair blynedd. Mae yng nghamau olaf cael ei gymeradwyo nawr, ac mae gen i gyflogau ar gyfer y prosiect cyn 16.

Yn yr un modd, esboniodd cwmnïau preifat sy'n darparu ymyriadau darpariaeth amgen y byddent yn debygol o redeg ar gollod. Roedd dau gwmmni preifat, y sefydliad amgylcheddol a'r darparwr hyfforddiant, yn rhedeg ar ddiffyg ariannol, ac roedd rhannau eraill o'u sefydliadau yn cymorthdalau eu darpariaeth. Fel y darparwr cerddoriaeth, ariannwyd y sefydliad amgylcheddol fesul myfyriwr; esboniodd cyfranogwr 4:

Maen nhw (yr ALL neu'r ysgol) yn talu cyfradd ddyddiol i ni ar gyfer pob disgybl. Mae ein cyllideb yn seiliedig ar tua 12 o blant y dydd bob tymor ysgol, ac yna byddem yn gallu talu ein costau. Nid ydyn ni wedi llwyddo i wneud hyn ers 8 mlynedd. Rydyn ni'n mynd i redeg ar gollod, ond rydyn ni hefyd yn gwybod y bydd rhannau eraill o'r cwmni yn gwneud ehw ac yn talu arian i mewn iddo.

Esboniodd cyfranogwr 9 fod ganddo gontract gydag awdurdodau lleol i ddarparu hyfforddiant. Fodd bynnag, nid oedd wedi priso'r contract, ac er ei fod yn 'ceisio rhagweld costau ariannol cystal ag y gallai o ran cynllunio ac adnoddau', roedd 'brwdfrydedd yn gallu mynd yn drech a chi eisiau gwneud y gorau dros y dysgwyr'. Yn ddiweddar roedd wedi trefnu taith breswyl i fferm weithiol oherwydd ei fod yn ei ystyried yn gyfle go iawn ar gyfer datblygiad personol, 'ond mae'n costio arian, a chi'n cyrraedd y pwynt lle mae'n rhaid i chi fynd ar ofyn y cwmni a dweud, "Edrychwch, wnes i ddim ei roi yn fy nghyllideb, beth chi'n meddwl? Byddai ein pobl ifanc yn elwa ar hyn.'" Eglurodd ei bod yn ddefnyddiol bod yn rhan o sefydliad mwy.

Mae'n anhygoel o ddrud... mantais bod yn ddarpariaeth ychwanegol o fewn cwmni hyfforddi mawr yw bod y cwmni'n talu'r bil; mae gennym y contract gyda'r ALLau, nid ydyn yn ei brisio, rydyn ni'n ceisio mantol'r gyllideb. Yr hyn sy'n digwydd yw er ein bod yn rhagweld cystal ag y gallwn. Mae'n llawer mwy tebygol y byddwn yn rhedeg ar ddiffyg ariannol. Mae brwdfrydedd yn gallu mynd yn drech a chi eisiau gwneud y gorau dros y dysgwyr hyn.

Cafodd y prosiect ymgysylltu gwaith ieuencid ei ariannu gydag arian cyhoeddus a'i redeg gan yr awdurdod lleol. Esboniodd cyfranogwr 6 fod ganddo ddigon o arian i dalu am weithgareddau craidd ond bod angen cyllid ychwanegol ar gyfer gweithgareddau a phrofiadau ychwanegol i fyfyrwyr. Eglurodd ei fod bob amser yn chwilio am gyllid, a dyna oedd 'natur y bwystfil' ar gyfer darparwyr darpariaeth amgen:

Nid oes byth digon o arian i wneud yr hyn y mae'r bobl ifanc eisiau ei wneud neu angen ei wneud ... rydyn ni yn gwneud cais am unrhyw beth sy'n ein galluogi i wneud pethau na fyddem o reidwrydd yn gallu eu gwneud oherwydd ein bod yn cael tua £2.00 y dydd i'w uario ar berson ifanc o gymryd yr holl gostau staffio a chostau rhedeg y ganolfan. Yr hyn sydd ar ôl ar gyfer adnoddau, gweithgareddau a phrofiadau yw £2.00 am bob person ifanc.

Trafodaeth a Chasgliad

Nod yr ymchwil hon oedd archwilio rhesymeg gwahanol fathau o ddarpariaeth amgen sy'n gweithredu ar draws dau ALI yng Nghymru. I ddechrau, roedd yn heriol dewis sefydliadau oherwydd nad oedd rhestr gyfredol yn cynnwys yr holl ddarparwyr ALI a ddefnyddiwyd gan ysgolion. Mae hyn yn adlewyrchu ymchwil flaenorol ar ddarpariaeth amgen, a ganfu 'amrywiaeth ddryslyd o brosiectau' yn hytrach na system llwybr a chymorth trosiannol integredig, a lle'r oedd unrhyw ddarpariaeth amgen wedi'i fapio, fe'i lluniwyd ar sail prosiect ac nid yw wedi'i ddiweddarau'n rheolaidd (te Riele, 2007, t. 54; Thomson a Russell, 2009). Pan gafodd darparwyr eu mapio ar gyfer y prosiect hwn, dewiswyd sampl bwriadus o ddeg darparwr darpariaeth amgen gyda gwahanol resymeg. Mae cwestiwn ymchwil un yn archwilio rhesymeg benodol gwahanol fathau o ddarpariaeth. O fewn amrywiaeth y ddarpariaeth, roedd dau brif gategori o ddarpariaeth amgen gyda rhesymeg wahanol. Darpariaeth amser llawn a gynigir fel dewis arall yn lle addysg brif ffrwd, a darpariaeth atodol ran-amser sy'n ceisio ail-ymgysylltu disgyblion mewn addysg brif ffrwd. Roedd mwy o gymhlethdod yn hyn o beth, gyda darparwyr amser llawn a rhan-amser o'r trydydd sector/sector preifat a'r sector cyhoeddus yn darparu ystod o ymyriadau chwaraeon, addysgol, galwedigaethol a therapiwtig. Roedd teipoleg Thomson a Russell (2007) yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer trefnu'r ymyriadau gwahanol i gategoriâu galwedigaethol, sgiliau gwaith, sgiliau sylfaenol, sgiliau bywyd, seiliedig ar weithgaredd, amgylcheddol,

y celfyddydau, therapiwtig, profiad gwaith ac academiaidd. Fodd bynnag, er bod teipolegau presennol yn ddefnyddiol wrth drefnu ymyriadau, mae Power et al. (2022) yn awgrymu mai'r hyn sydd ei angen yw teipoleg sy'n egluro beth sy'n gwneud gwahaniaeth a'r ffordd orau o ail-ymgysylltu. Fodd bynnag, fel y trafodwyd isod, mae canfyddiadau'r ymchwil hon yn awgrymu bod gan sefydliadau darpariaeth amgen gyllid ansicr, a allai effeithio ar gynaliadwyedd. Maent hefyd yn wynebu heriau o ran mesur llwyddiant. Byddai hyn yn gwneud creu teipoleg a oedd yn cofnodi'r hyn sy'n gwneud gwahaniaeth mewn darpariaeth amgen yn heriol.

Archwiliodd yr ail gwestiwn ymchwil pa ymyriadau, yn y gorffennol a'r presennol, a ystyriwyd yn llwyddiannus a pham. Nododd darparwyr darpariaeth amgen heriau sylweddol o ran dangos effeithiolrwydd eu hymyriadau. Y broblem gyntaf a oedd yn wynebu darparwyr darpariaeth amgen oedd gwybodaeth atgyfeirio annigonol; roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd sefydlu llinell sylfaen i adrodd ar y pellter a deithiwyd gan fyfyrwyr. Roedd mesur canlyniadau hyd yn oed yn fwy heriol i ddarparwyr rhan-amser a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc mewn perygl o gael eu gwahardd gyda'r nod o'u hail-ymgysylltu mewn addysg. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd er eu bod yn dal i barhau â rhyw fath o addysg brif ffrwd ond maent yn dal i gael eu tynnu o wersi prif ffrwd. Fodd bynnag, roedd hefyd oherwydd bod darparwyr rhan-amser yn tueddu i beidio â chyflawni achrediaidau neu gymwysterau 'yn bwrsasol', sy'n golygu bod yn rhaid iddynt ddod o hyd i ffyrdd eraill o fesur llwyddiant. Roedd pob darparwr darpariaeth amgen yn defnyddio system wahanol, gan gynnwys Sêr Deilliannau a systemau mesur mewnol, er gwaethaf yr holl adroddiaidau ar bethau tebyg, gan gynnwys llesiant gwell a mwy o hyder. Esboniodd darparwyr rhan-amser ei bod yn heriol olrhain cynnydd pobl ifanc gan na fyddai ysgolion yn rhannu manylion cyswllt disgyblion; mae hyn yn codi cwestiynau am y berthynas rhwng ysgolion a darparwyr darpariaeth amgen, wrth i ysgolion ymddiried mewn darparwyr darpariaeth amgen i ddarparu ymyrraeth i ddisgyblion heb ddarparu eu manylion cyswllt. Gallai hyn hefyd fod oherwydd polisiâu ysgolion ar rannu data eu disgyblion. Er bod angen mesur llwyddiant i sicrhau cyllid, gallai'r amser sydd ei angen i sicrhau adnoddau hefyd fod yn rhwystr i fesur llwyddiant.

Mewn cyferbyniad, gallai darparwyr amser llawn gofnodi allbynnau a phontio i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant yn haws. Roedd y darparwyr amser llawn yn tueddu i fod â monitro a gwerthuso ar waith, gan gofnodi TGAU neu gymwysterau cyfwerth a enillwyd a chyrcfannau ôl-16

dysgwyr. Hyd yn oed gyda data da ar gymwysterau a phontio i gyffogaeth, addysg a hyfforddiant, nododd y darparwyr amser llawn yr angen am ymchwil fwy hydredol; roedden nhw eisiau gwybod os oedd pobl ifanc wedi cael eu datblygu yn y tymor hir. Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn yn awgrymu y gall darparwyr darpariaeth amgen ei chael hi'n anodd darparu tystiolaeth o lwyddiant. Mae canfyddiadau'r ymchwil hon hefyd yn awgrymu bod dadl gref dros ymchwil sy'n gwerthuso effeithiolrwydd darpariaeth amgen a deilliannau hydredol pobl ifanc sydd wedi mynychu darpariaeth amgen.

Canfu'r ymchwil hon broblemau yn ymwneud ag adnoddau a allai effeithio ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth. Roedd angen mwy o arian ar ddarparwyr darpariaeth amgen yn y sector preifat a'r trydydd sector, yr oedd ysgolion neu ALLau yn eu hariannu, i dalu am gostau eu gweithgareddau craidd. Esboniodd sefydliadau'r trydydd sector, er eu bod yn cael eu hariannu gan ysgolion neu ALLau, nad oeddent bob amser yn talu cost lawn rhaglenni. Er enghraifft, esboniodd cyfranogwr 10, er ei fod yn cael ei ariannu gan ysgolion ac ALLau, nid yw'r cyllid hwn yn talu ei gostau craidd. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid iddo ddibynnu ar gymysgedd 'anhrefnus' o ddeg ffrwd incwm wahanol gan gynnwys cyllid grant, cyllid corfforaethol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau. Roedd darparwyr yn y sector preifat yn cael trafferth gyda chyllid ond roeddent yn cael eu cymorthdalau gan rannau mwy profidiol o'u sefydliadau. Er enghraifft, esboniodd cyfranogwr 4, oherwydd ei fod yn cael ei ariannu fesul lle, bod angen 12 myfyriwr arno i dalu ei gostau, ac nad oedd wedi llwyddo i wneud hynny ers wyth mlynedd. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu ymchwil flaenorol sydd wedi canfod bod y ffordd y caiff darpariaeth amgen ei ariannu ar gontractau tymor penodol yn gallu arwain at ansefydlogrwydd y ddarpariaeth a'i fod yn aml yn cael ei chomisiynu fesul lle (te Riele, 2007; Malcolm, 2019; Thomson a Pennacchia, 2014). Gallai'r angen hwn i ddibynnu'n helaeth ar godi arian effeithio ar ddarpariaeth rhaglenni ac esbonio pam mae tirwedd mor gymhleth o ddarpariaeth amgen, gan y gellir ariannu rhaglenni am gyfnod tymor byr. Gallai ansefydlogrwydd cyllid fod yn gysylltiedig â'r problemau y mae darparwyr yn eu cael yn mesur llwyddiant, gan y gall fod yn heriol sicrhau cyllid os nad oes tystiolaeth o lwyddiant. Efallai mai'r hyn sydd ei angen yw i academyddion weithio gydag ymarferwyr i gynyddu capasiti'r sector i fesur llwyddiant y ddarpariaeth. Datblygu a sefydlu ffyrdd cyffredinol a ddeallir yn eang o fesur llwyddiant er mwyn deall pa fodelau sy'n gweithio orau i blant a phobl ifanc. Dylai hyn

gynnwys ymchwil hydredol i ddeall pa ymyriadau sy'n gwneud gwahaniaeth yn y tymor hir.

Cyfeiriadau

- Aron, L. a Zweig, J. (2003) Educational alternatives for vulnerable youth: Student needs, program types and research directions. Washington DC: The Urban Institute.
- Clarke, V. a Braun V. (2017) 'Thematic analysis', *The Journal of Positive Psychology*, 12 (3), 297–8.
- Construction Skills Certification Scheme. (2023) *About CSCS*. [Ar-lein]. The official site for the Construction Skills Certification Scheme. Diweddarwyd ddiwethaf: 19 Medi 2023. Gw.: <https://www.cscs.uk.com/about/> [Cyrchwyd 19 Medi 2023].
- Estyn (2023) Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Caerdydd: Estyn.
- Greene, M. J. (2014) 'On the Inside Looking In: Methodological Insights and Challenges in Conducting Qualitative Insider Research', *The Qualitative Report*, 19(29), 1–13.
- Hart, N. (2013) 'What helps children in a pupil referral unit (PRU)? An exploration into the potential protective factors of a PRU as identified by children and staff', *Emotional and Behavioural Difficulties*, 18(2), 196–212.
- Hickey, A., Pauli-Myler, T. a Smith, C. (2020) 'Bicycles, "informality" and the alternative learning space as a site for re-engagement: a risky (pedagogical) proposition?', *Asia-Pacific Journal of Teacher Education*, 48(1), 45–59.
- Jalali, J. a Morgan, G. (2018) "'They won't let me back.'" Comparing student perceptions across primary and secondary Pupil Referral Units (PRUs)', *Emotional and Behavioural Difficulties*, 23(1), 55–68.
- Llywodraeth Cymru (2018) *Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2019) *Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS): fframwaith gweithredu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2023) *Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)*. [Ar-lein]. Llywodraeth Cymru. Diweddarwyd ddiwethaf: 31 Ionawr 2023. Gw.: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-ahy> [Cyrchwyd 26 Medi 2023].
- Malcolm, A. (2019) 'Turning points in a qualitatively different social space: young adults' reflections of alternative provision', *Emotional and Behavioural Difficulties*, 24(1), 84–99.
- Malcolm, A. (2020) 'Heads of alternative provision: committed to realising young peoples' potential in an unregulated market', *International Journal of Inclusive Education*, 24:5, 513–26.

- McCluskey, G., Lloyd, G., Riddell, S., Weedon, D. a Fordyce, M. (2013) *Evaluation of education provision for children and young people educated outside the school setting*. Cardiff: Welsh Government.
- McCluskey, G., Riddell, R. a Weedon, E. (2015) 'Children's rights, school exclusion and alternative educational provision', *International Journal of Inclusive Education*, 19(6), 595–607.
- Mills, M., McGregor, G., Baroutsis, A., Te Riele, K. a Hayes, D. (2016) 'Alternative education and social justice: considering issues of affective and contributive justice', *Critical Studies in Education*, 57:1.
- Patton, M. Q. (2014) *Qualitative research and evaluation methods* (4^{ydd} arg.). Los Angeles: Sage.
- Pennacchia, J. a Thomson, P. (2016) 'Complementing the mainstream: an exploration of partnership work between complementary alternative provisions and mainstream schools', *Pastoral Care in Education*, 34(2), 67–78.
- Power, S. et al. (2022) *Alternative provision towards a typology*, The Scottish Educational Research Association (SERA) Conference.
- Power, S., Bridgeman, J., Duffy, G., McCluskey, G., Tawell, A., a Taylor, A. (2024). *The varied landscape of alternative education provision in the UK: a home international comparison*. Department of Education, University of Oxford. Gw.: <https://ora.ox.ac.uk/objects/uuid:b9453bd9-6843-4e32-8842-035e3d9a5b84>
- Putwain, D. J., Nicholson, L. J. ac Edwards, J. L. (2016) 'Hard to reach and hard to teach: supporting the self-regulation of learning in an alternative provision secondary school', *Educational Studies*, 42(1), 1–18.
- Reimer, K. a Pangrazio, L. (2020) 'Educating on the margins: young people's insights into effective alternative education', *International Journal of Inclusive Education*, 24(5), 479–95.
- Sandford, R. A., Armour, K.M., a Warmington, P.C. (2006) 'Re-engaging disaffected youth through physical activity programmes', *British Educational Research Journal*, 32, 251–71.
- Smith, P. a Connolly, M. (2019) 'Care and Education. A Case Study: Understanding Professional Roles and Identities of Teachers within a Welsh PRU', *Wales Journal of Education*, 21(1). 65–88.
- te Riele, K. (2007) 'Educational Alternatives for Marginalised Youths', *The Australian Educational Research*, 34(3), 53–68.
- te Riele, K., Mills, M., McGregor, G. a Baroutsis, A. (2017) 'Exploring the Affective Dimension of Teachers' Work in Alternative School Settings', *Teaching Education*, 28(1), 56–71.
- Thomson, P. a Pennacchia, J. (2014) *Literature review. What's the alternative? Effective support for young people disengaging from the mainstream*. London: The Prince's Trust.
- Thomson, P. a Pennacchia, J. (2016) 'Disciplinary regimes of 'care' and complementary alternative education', *Critical Studies in Education*, 57(1), 84–99.
- Thomson, P. a Russell, L. (2007) *Mapping the alternatives to permanent exclusion*. York: Joseph Rowntree Foundation.

- Thomson, P. a Russell, L. (2009). 'Data, data everywhere – but not all the numbers that count? Mapping alternative provisions for students excluded from school', *International Journal of Inclusive Education*, 13(4), 423–38.
- Trotman, D. L., Enow, L. a Tucker, S. (2019) 'Young People and Alternative Provision: Perspectives from Participatory–collaborative Evaluations in Three UK Local Authorities', *British Educational Research Journal*, 45(2), 219–37.